

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri baco, Amlwch 1938-1942, a rhai misoedd yn c. 1946

Cyfwelai: VN056 Sali (Sarah) Williams

Dyddiad: 17: 11: 2014

Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Sali ei henw, ei chyfeiriad a'i ddyddiad geni, sef 08/10/1924.

Ganwyd hi yn Amlwch, yn y tŷ, roedd ei modryb yn byw yn agos, a oedd wedi bod yn nyrs yn y rhyfel byd cyntaf, a gwnaeth hi helpu yn y geni. Roedd ei thad yn forwr nes cafodd o ddamwain fawr a thorri ei goesau, a mynd yn anabl iawn. Chafodd Sali ddim llawer o addysg achos doedd y teulu ddim yn gallu talu am dren a llyfrau ayyb a gadawodd hi'r ysgol yn Amlwch yn 14 oed. Daeth rhywun o'r ffatri, a oedd yn nabod ei theulu, i'r drws i gynnig gwaith iddi felly aeth hi'n syth i'r gwaith. Roedd ei thaid yn cario'r baco o'r orsaf hefyd ac roedd hi'n meddwl ei fod o'n nabod y bosys.

Cafodd hi ryw fath o gyfweiliad ac wedyn 'dechrau straight away.' Roedd hi'n 14 oed ar y pryd felly roedd hyn yn y flwyddyn 1938. Dyna'r oes roedd hi'n byw ynddi, meddai, pawb yn dechrau gwaith yn 14 oed.

Roedd ei diwrnod cyntaf yn iawn, wnaethon nhw ddangos iddi beth i wneud. Roedd hi'n nabod ☺ llawer o bobl, o'r pentref, ac o bell a oedd yn dod i'r gwaith ar gefn beic (?) Ei swydd hi oedd gwneud yr 'ounces' crwn, pwysu'r baco mewn ounces ar fwrdd gyda thair merch arall. Roedd rhaid pwysu'r baco yn gywir er mwyn i rywun arall ei bacio fo mewn pecynnau crwn. E. Morgan & Co oedd enw'r cwmni yma, er bod tair ffatri baco yn Amlwch ar y pryd, un ohonynt yn y tŷ drws nesaf i ble mae Sali yn byw nawr, Huw Owen & Co. Roedd y bos yn byw yn y tŷ lle mae'n byw nawr. Roedd Sali yn byw hanner ffordd i Borth Amlwch ac yn cerdded i'r gwaith neu'n mynd ar gefn beic.

Ei horiau hi oedd wyth tan hanner awr wedi pedwar, gydag awr i ginio. Doedd dim brec arall yn ystod y dydd ac roedd hi'n mynd adre i ginio gan nad oedd cantîn yn y ffatri 'cerdded adre i gael rhyw snac a cherdded yn ôl wedyn.' Weithie roedd rhaid gweithio'n ymlaen, oes oedd archeb fawr i gwblhau. Eistedd lawr oedd hi i weithio, wrth fwrdd. Roedd y gwaith yn ddiddorol, meddai. Roedd y baco yn dod mewn bocsys mawr iddi o Lerpwl, y rhan fwyaf, ar y tren. *Carters* yn dod â'r bocsys o'r orsaf i'r ffatri ac ar ôl cael eu pwysu a'u pacio, aent i siopau dros Gymru.

11.30 Yn y bore, roedd hi'n cael gwybod gan y swyddfa faint o baco roedd hi i fod i bacio, bocsys

o 16 ounces wedi'u pacio'n dwt, ounce bob un, gyda'r enw'r baco arnyn nhw - fel Hen Aelwyd a Pride of Wales. Roedd y ffatri yn eithaf mawr gyda phawb a'i waith, meddai. Roedd y dail a oedd wedi dod i'r ffatri yn mynd lan loft, trwy 'trap door' lle roedden nhw'n gael eu gwasgu a'u 'spreadio' nhw ar ryw staging er mwyn cael eu tretio gyda dŵr ac wedyn roedden nhw'n cael eu gadael i sychu tan iddyn gyrraedd rhyw 'texture' iawn ac wedyn cael eu crasu. Roedd dynion yn gwneud y gwaith hwn a byddent yn dod i Sali a'r merched i gael eu rollo a'u pacio mewn ounces. Gwaith mwyaf y merched oedd pacio er bod rhai yn gwneud y 'twistio' hefyd, sef, rollo baco mewn i ryw fath o raff a rhoi 'olive oil' arno a'i roi fo mewn *press* wedyn am diwrnodau. Roedd y math hwn o baco yn cael ei smocio mewn pibell neu ei gnoi.

Gwnaeth hi ddysgu'r gwaith yn gyflym, meddai, ac roedd yn dda yn pwysu'r ounces, yn eu pacio nhw'n dda, rhoi'r *wrapper* cywir amdano. Roedd rhaid iddi hefyd roi'r baco mewn rhyw fath o 'dwmfat' er mwyn ei wneud yn dwt ac yn crwn. Roedd y parseli wedyn yn mynd allan i'r orsaf. Roedd HMS *customs* yn dod weithie, heb roi gwybod, i destio'r baco ac i weld oes oedd 'na ormod o ddŵr ynddo fe. Os oedd yn rhy wlyb, roedd pobl yn talu gormod amdano. Roedd supervisor yn dod at Sali efo archebion. Yr un baco oedd yn mynd i bob *wrapper*, meddai, ac er bod yr enwau yn wahanol roedd yr un un baco.

19.00 Dywedodd Sali ei bod hi yno am bedair blynedd cyn iddi gael ei galw 'i fyny' ac aeth hi i mewn i'r fyddin dir. Roedd y rhan fwyaf o'r merched oedd yn gweithio yno yn ifanc, fel hi, achos doedd dim llawer o merched hŷn y gweithio yn yr un lle ar ôl priodi. Efallai eu bod nhw'n dychwelyd i'r gwaith, meddai, ond mewn lle arall. Cafodd Sali le un ferch oedd wedi priodi a wedi symud i Gaer efo'i gŵr a dyna sut cafodd hi'r swydd, meddai.

Roedd y berthynas yn iawn rhwng y merched 'pawb yn gytun.' Doedd na ddim byd '*hygienic*' am y lle, dim ond tipyn o ddŵr i olchi'r dwylo mewn bwced, dim tap, a dim '*water toilets*.' Doedd dim rheolau iechyd a diogelwch er bod hi ddim yn cofio damweiniau erioed. Roedd y belt i fyny grisiau yn mynd ac yn gallu bod yn beryglus. Roedd y belt yn gwneud y *Taffi Twist* baco, ac roedd dynion yn hoffi cnoi. Ac roedd na *press* mawr fannu a pheiriant hefyd i falu'r dail (?) Doedd y gwaith ddim yn frwnt, meddai, er ei bod hi'n defnyddio ei dwylo. Doedd ei chroen ddim yn cael ei staenio hefyd ac roedd yr *olive oil* yn lyfli ar y dwylo, meddai. Roedd hi'n gwisgo 'brat', hy, rhyw oferol, ond roedd rhaid i bawb brynu eu hoferols eu hunan.

23.00 **Roedd ei chyflog yn dechrau ar 10 swllt yr wythnos, ond aeth hwn i fyny ryw ychydig. Roedd y dynion yn cael mwy o gyflog - £1.50 - achos roedd rhaid iddynt gadw tŷ.** Doedd y merched ddim yn cwyno am hyn achos 'dyna chi'r oes oedd hi, doedd neb yn ddim byd gwell na'i gilydd, doedden nhw ddim yn gyflogau mawr.' Roedd Sali yn rhoi 'rhywbeth bach' o'i chyflog i'w mam a chadw'r gweddill iddi ei hun er mwyn mynd i'r sinema. Roedd llawer o bethau'r gymdeithas yn mynd ymlaen, meddai, dramau, rhywbeth efo'r eglwys, *Band of Hope*, *Girls' Friendly Society*, ayyb, ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn cymryd rhan yn y pethau yma. Roedd hi'n perthyn i lawer o bethau fel hyn.

Roedd hi'n byw gartref ar y pryd. Roedd ganddi hi frawd ac aeth o i'r *RAF*, ar ol bod yn saer cerrig. Roedd y rhan fwyaf o'i theulu yn ymwneud â'r môr, heblaw ei brawd a'i thaid.

Doedd dim undeb i'r gweithwyr yn y ffatri a doedd neb wedi galw am un. Dydy hi ddim yn cofio streic.

Ar ddechrau'r rhyfel, roedd llawer o ddynion yn mynd o'r ffatri i'r fyddin, ac roedd dynion mewn oed a'r rhai nad oedd eu hiechyd yn iawn yn aros. Roedd perthynas dda rhwng y merched a'r dynion, meddai, gyda thipyn o dynnu coes. Roedd ei gŵr wedi dechrau yn y ffatri ac yna cafodd ei alw i fyny i'r llynges.

Doedd hi ddim yn ysmegu, jyst 'pwff bach' o bryd i'w gilydd. Dydy hi ddim yn cofio unrhywdun yn dwyn baco o'r ffatri ond 'synnwn i ddim,' meddai. Mae'n debyg fod y bosys yn cau eu llygaid, dywedodd, gan eu bod nhw yn gwerthu *cigarettes* i'r gweithwyr, *cigarettes* roedden nhw wedi eu prynu o Wills mewn *bulk*. Roedd y gwaith yn un go fawr, meddai, fwy na'r ddwy ffatri baco arall yn Amlwch. Mae'n meddwl bod y gweithwyr yn gallu prynu baco o'r ffatri ond ddim yn siwr gan fod y baco yn mynd mewn pecynnau i'r siopau. Roedd y ffatri yn gwneud '*snuff*' hefyd (?) ac roedd merched gan fwyaf yn cymryd *snuff* ac roedd eu trwynau yn mynd yn goch. Doedd Sali ddim.

30.40 Roedd hi'n cael pythefnos o wyliau yn yr haf ond doedd hi ddim yn gwneud llawer, mynd am dro neu drip i Lerpwl ond ddim yn aml, neu fynd am y diwrnod ar y tren. Roedd hi'n cael gwyliau banc hefyd a Nadolig a Pasg. Tasai rhywun yn sal roedd rhaid iddynt gael papur meddyg ond dydy hi ddim yn cofio os oedd y cwmni yn talu gweithwyr a oedd yn sal. Roedd y bosys yn iawn ond yn *strict*. Roedd gan y ffatri ddrws mawr rownd y cefn ac roedd pobl yn trio sleifio i mewn fan yno pan oedden nhw'n hwyr. Wnaeth Sali drïo unwaith yn unig achos cafodd hi ei dal ac dywedon nhw bod yn rhaid iddi ddefnyddio'r drws ffrynt.

Roedd hi'n hoffi'r gwaith, yn reit hapus, ac yn mwynhau'r cwmni. Roeddech chi'n dod ar draws pob math o bobl, meddai, ond roedd pawb yn hapus. Doedd y gwaith ddim yn undonog iawn, er bod o'r un peth bob dydd, meddai, a beth bynnag, roedd o'n *waith*. Roedd hi'n gwneud yr un peth trwy'r amser, gwneud yr ounces, a doedd dim cyfle i ddysgu gwaith arall na thyfu i fod yn siwpervisor, o achos roedd na rhai hynach na hi i fyny'r grisiau yn gwneud y *Taffi Twist* ac hefyd ar ei bwrdd hi, er bod tuedd i'r rhai henach briodi a mynd o 'na. Ar hyn adeg, achos hyn, hi oedd yr un hyna ac roedd merched ifancach ar ei bwrdd, felly roedd ganddi fwy o gyfrifoldeb, gofalu bod yr archebion yn iawn.

Doedd hi ddim yn meddwl bod y ffatri yn lle anghysurus i weithio ac roedd pobl yn dod i arfer.

Pan gafodd hi ei galw i fyny yn 1942, dywedodd y bos y byddai lle yn y ffatri iddi pan oedd hi'n dychwelyd. Roedd hi yn y fyddin dir am dair blynedd ac, ar ôl y rhyfel, aeth hi'n ol i'r ffatri am dipyn.

Roedd hi ar ffermydd yng Nghymru yn ystod y rhyfel, yn y diwedd ar un ar Ynys Môn. Roedd hi'n mwynhau ac yn gwneud bob dim - godro, hel wyau, bwydo'r anifeiliad. Roedd y fferm olaf yn strict iawn, a doedd dim hawl ganddi gyffwrdd â dim byd yn y tŷ, dim ond gweithio ar y fferm, er ei bod hi'n byw efo nhw. Roedd hi'n reit hapus ac yn gallu mynd i Fangor i'r sinema a dawnsio ayyb. Roedd hi'n 18 yn mynd i'r fyddin dir ac roedd meddyg lleol wedi awgrymu y byddai'n gallu mynd fel nyrs, ond landiodd i fyny yn y fyddin dir. Roedd merch arall o'r ffatri wedi mynd i'r fyddin dir hefyd ac roedd Sali yn benthyg beic i fynd i'r fferm yn Brynsiencyn lle oedd y ferch yma'n gweithio, ond roedd rhaid iddi dalu am ddefnyddio'r beic, er ei fod yn perthyn i'r fyddin.

40.00 Roedd hi'n cael 12 swllt a 6 ceiniog a llety a bwyd yn y fyddin dir. Ar ôl y rhyfel, dychwelodd hi i'r ffatri ond roedd llawer o'r cyn-weithwyr wedi mynd. Aeth hi'n ôl ac enillodd hi fwy o arian. Gwnaeth hi symud i fyw gartref tan iddi briodi ei gŵr. Roedd o wedi bod yn llynges yn ystod y rhyfel ac wedyn roedd o yn y ffatri baco am ychydig cyn symud i ffatri arall - Roctal? Roedden nhw'n nabod ei gilydd achos dyn o Amlwch oedd o. Priodon nhw yn 1949 pan oedd Sali yn 25. Doedd dim rhaid iddi adael y ffatri ar ôl priodi ond gadawodd hi pan oedd hi'n disgwyl ei mab cyntaf. Wnaeth hi ddim dychwelyd i'r gwaith achos cafodd hi bump o blant ac roedd hi gartref wedyn yn eu magu nhw ac yn cadw'r tŷ.

Pan oedd hi yn y ffatri, doedd y gweithwyr ddim yn trefnu partion, er eu bod nhw'n dod at ei gilydd ar adegau arbennig fel Nadolig. Doedd y bosys ddim yn trefnu dim byd i'r gweithwyr. Roedd y

gweithwyr yn cael eu talu am weithio drosodd. Gwnaeth Sali ambell i fore Sadwrn er mwyn cael archebion wedi'u cwblhau.

Mae Sali yn dweud ei bod hi wedi cael bywyd llawn iawn, er bod hi wedi colli'i gŵr ac, yn diweddar, ei mab hynaf.

Am ychydig o funudau ar y diwedd, mae Sali yn siarad am rai profiadau gafodd hi yn y fyddin dir, fel benthyg gemwaith rhyw faroness, a oedd â thŷ mawr yn Ynys Môn, i fynd i ddawns ac roedd GI yn meddwl ei bod hi wedi eu cael nhw fel anrheg gan rywun.

Hyd: 50 munud

English summary:

Tobacco Factory, Amlwch 1938-1942, and some months in c. 1946

Interviewee: VN056 Sali (Sarah) Williams

Date: 17: 11: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive of Wales

Date of birth: 08/10/1924

Born in Amlwch; her father was disabled at sea. There was no money for schooling and she left school in Amlwch when she was 14. Someone from the Tobacco factory came to offer her a job. Her grandfather carried tobacco from the station to the factory and perhaps knew the boss. She started working in 1938 after some kind of interview.

Her first day was O.K. because she knew quite a few of the people working there. Her job was to weigh the tobacco into ounces. She worked at a table with three other girls. Someone else packed the tobacco into round packages. The company was called E. Morgan & Co. There were three tobacco factories in Amlwch at this time, one next door to Sali's present home – Huw Owen & Co. The boss lived in her present home. At the time Sali lived on the way to Porth Amlwch. She walked or cycled to work.

Hours: 8-4.30, with an hour for dinner. She went home for dinner – no canteen in works. Sometimes she did overtime if there was a large order. She sat down to work. It was interesting. The tobacco came in large boxes from Liverpool. Cartrers brought them from the station. They went, after weighing and packaging to shops across Wales..

11.30 In the morning the office would tell her her work for the day – 16 ounce boxes, weighed in individual ounces. Each tobacco had a name – e.g. Hen Aelwyd and Pride of Wales. The factory was quite large. The leaves were taken upstairs through a trap door, pressed and spread out on staging, treated with water, left to dry until of the right texture and then baked. Men did this work. Sali and the girls rolled and packed the tobacco into ounces. Some girls also twisted the tobacco – rolling it into a kind of rope and putting olive oil on it and then pressing it for days. This tobacco would be smoked in pipes or chewed.

She was good at the work. She also had to put the tobacco in a sort of funnel to make it neat and

round. HMS *customs* called sometimes without warning to check there wasn't too much water in the tobacco. A supervisor brought the orders to Sali. The same tobacco went into each wrapper though they were called different names.

19.00 She worked there for four years until called up to the Land Army. Most of the girls were young – few worked after getting married then. Sali herself had the job of a woman who got married and moved to Chester.

Everyone got on. It was not '*hygienic*', a bucket to wash hands, no tap, no water toilets. She doesn't remember any accidents – though the belt to make Twisted Tobacco The work wasn't dirty – though she used her hands. Her skin wasn't stained and the olive oil was lovely. She wore a kind of overall which every worker bought for herself.

23.00 **She earned about 10 shillings a week. The men -earned £1.50 because they had to keep house.** The girls didn't complain '**that was the age, no one was better than any one else, they weren't high wages.**' Sali gave 'a little bit' of her wages to her mother and kept the rest to go to the cinema. She was also a member of societies such as the *Band of Hope*, *Girls' Friendly Society*, etc.

She lived at home at this time. Her brother was in the RAF after being a stone mason. Most of her family were at sea, except her grandfather and brother.

There was no union in the factory – no one called for one. She doesn't remember a strike.

At the beginning of the war men left the factory for the army, leaving elderly men and those in poor health behind. There was a good relationship between the men and the girls with quite a bit of leg pulling. Her husband had started in the factory but was called up to the navy.

Sali doesn't smoke – just the occasional puff. She can't remember anyone stealing tobacco but 'I wouldn't be surprised' she says. It's likely the bosses turned a blind eye because they sold cigarettes which they had bought in bulk from Wills to the workers. This was the largest tobacco factory in Amlwch. The factory also made snuff – the girls took the snuff and their noses went red. Sali didn't do so.

30.40 She had a fortnight's holiday in the summer but only went on the occasional trip to Liverpool or on a day out on the train. They also had Bank holidays at Xmas and Easter. If you were ill you had to have a doctor's paper but she is uncertain whether there was any sick pay. The bosses were very strict. The factory had a large back door and some workers tried to sneak in here if they were late. She tried it once but was caught and told to use the front door.

She liked the work, she was quite happy and enjoyed the company. You came across all sort. The work wasn't very monotonous, although it was the same every day, but it was *work*. She di the same work all the time and was not given an opportunity to learn new skills or be a supervisor, because there were older workers than her there – making the Taffi Twist, though they tended to marry and leave. At one time she was the oldest on her table and so had more responsibility, looking after the orders.

She didn't think the factory was an uncomfortable place to work and people got used to it there.

When she was called up in 1942 the boss told her there would be room for her in the factory when she returned. She was in the Land Army for three years, and she returned to the factory for a little while.

She spent the war on farms in Wales and lastly in Anglesey. She enjoyed- milking, collecting eggs and feeding the animals. The last farm was strict – she couldn't touch anything in the house though she lived there. She was happy going to Bangor to the cinema and to dances. She was 18 joining up and a local doctor suggested she could be a nurse, but she landed in the Land Army. Another girl from the factory joined the Land Army too and she cycled to see her on the farm in Brynsiencyn. She had to pay to use the bike although it belonged to the army.

40.00 She had 12 shillings 6 pence and food and lodging in the Land Army. After the war she returned to the factory to a higher wage. She lived at home until she married. Her husband was in the navy and then in the tobacco factory before moving to another factory. They married in 1949, Sali was 25. She left the factory when she was expecting her first child. She didn't return there because she had 5 children and she stayed at home to bring them up.

In the factory the workers didn't organise parties, though they got together for special occasions such as Christmas. The bosses didn't organise anything. They were paid overtime – Sali worked some Saturdays if the orders needed to be completed.

Sali says she has had a full life, though she has lost her husband, and recently her oldest son. Towards the end Sali talks about some experiences she had in the Land Army, e.g. borrowing jewellery from a baroness, who had a mansion on Anglesey, to go to a dance and a GI thinking she'd had them as a gift from someone.